

## **Arolygiad Anabledd Dysgu (dirybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan, Uned  
Breswyl Anabledd Dysgu  
(Cyfeirnod 16032)**

Dyddiad arolygu: 23 Mehefin 2016

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd profiad y claf .....	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. ....	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
	Y Camau Nesaf .....	18
5.	Methodoleg .....	19
	Atodiad A.....	21

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o uned breswyl fach ar gyfer cleifion ag anabledd dysgu (cyfeirnod 16032) ar 23 Mehefin 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un rheolwr arolygu AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut roedd yr uned breswyl yn cwrdd â'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ni roddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau anabledd dysgu, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae'r uned breswyl fach y gwnaethom ei harolygu yn rhan o wasanaethau anabledd dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r uned yn wasanaeth preswyl bach ac yn darparu cartref, gofal a thriniaeth i bobl ag anableddau dysgu o fewn y bwrdd iechyd.

Lleolir y gwasanaeth mewn un tŷ ac mae'n darparu gofal ar gyfer hyd at bump o gleifion.

Mae'r tîm staff yn cynnwys un rheolwr, sy'n nyrs gofrestredig ac sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth hwn ac ail wasanaeth preswyl. Caiff y rheolwr gefnogaeth gan ddirprwy reolwr ar draws y ddau wasanaeth. Mae gan y tŷ dîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd ymroddedig. Roedd gan y timau fynediad at wasanaethau amlddisgyblaethol hefyd o'r Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, therapi lleferydd ac iaith a therapïau celf ynghyd â chymorth ymddygiad arbenigol gan y Tîm Cymorth Dwys.

Mae'r gwasanaeth yn dod o dan y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu o fewn Isadrn Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd.

### 3. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth preswyl yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom staff yn trin cleifion â charedigrwydd a pharch.
- Roedd y cleifion yn cael cymorth i gadw'n iach.
- Roedd gan gleifion gynlluniau gofal ysgrifenedig a oedd yn nodi'r cymorth a'r gefnogaeth roedd eu hangen arnynt. Roedd cleifion yn derbyn gofal a chymorth a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unigolledig ac yn ceisio helpu cleifion i fod mor annibynnol â phosibl.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol ac yn ymroddedig i gyflawni'r canlyniadau gorau i gleifion.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Grymuso cleifion a gofalwyr i roi adborth cyson ar y gwasanaeth a sicrhau ei bod yn hawdd mynd at wybodaeth ynglŷn â chwynion.
- Dylid cefnogi staff i fynychu cyrsiau hyfforddi cyfredol i helpu i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.
- Mae angen sefydlu system i fonitro awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid <sup>1</sup>yn y lleoliad.

---

<sup>1</sup> Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ddiwygiad i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn caniatáu ataliaeth a chyfyngiadau – ond dim ond os ydynt er budd pennaf yr unigolyn. Mae angen mesurau diogelu eraill os bydd y cyfyngiadau a'r ataliaeth yn amddifadu'r unigolyn o'i ryddid. Adwaenir y rhain fel y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

Gwelsom staff yn trin cleifion â charedigrwydd a pharch ac roedd cleifion yn derbyn cymorth i gadw'n iach. Gwelsom fod staff yn parchu hawliau cleifion ac yn cynorthwyo cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Roedd cynlluniau gofal cleifion yn gynhwysfawr ac yn fanwl ac roeddent yn adlewyrchiad cywir a chyfredol o'r gofal a ddarperir. Fodd bynnag, nid oedd pasbortau ysbyty ar waith ar gyfer y cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella prosesau i alluogi cleifion a theuluoedd i roi adborth yn gyson. Teimlwyd y byddai aelodau o staff yn cofnodi adborth negyddol; ond yn aml nid oeddent yn cofnodi unrhyw adborth cadarnhaol a dderbyniwyd ganddynt.

Nid oedd unrhyw system ar waith i fonitro Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a oedd wedi arwain at awdurdodau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid oedd wedi darfod a dogfennau anghyflawn yn y lleoliad.

### Cadw'n iach

*Mae pobl yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofalwyr am unigolion nad ydynt yn gallu gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)*

Ar y cyfan, gwelsom fod cleifion yn derbyn cymorth i gadw'n iach.

Gwelsom fod cleifion wedi'u cofrestru â meddygon teulu a oedd yn ymweld â'r uned os oedd angen, a bod cleifion yn derbyn gwiriadau iechyd blynyddol. Ar adeg ein harolygiad nid oedd aelodau o staff yn gallu darparu pasbortau ysbyty'r cleifion<sup>2</sup> ar ein cyfer ac felly gwnaethom gasglu nad oedd y rhain ar waith. Mae pasbortau ysbyty'n ofynnol er mwyn sicrhau os caiff claf ei dderbyn i

---

<sup>2</sup> Dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am rywun ag anabledd dysgu yw pasbort ysbyty, ac mae'n rhoi gwybodaeth bwysig i staff ysbyty am yr unigolyn a'i iechyd pan gaiff ei dderbyn i ysbyty.

ysbyty bod gan yr aelodau o staff sy'n gweithio yn yr ysbyty wybodaeth gyfredol am roi cymorth i'r unigolyn.

Gwelsom fod cleifion yn derbyn cymorth i reoli eu cyflyrau iechyd, er enghraifft, mewn un set o gofnodion gwelsom fod y claf yn derbyn cymorth i reoli pwysau a bwyta'n iach. Gwelsom asesiadau hefyd gan aelodau'r tîm amlddisgyblaethol megis therapydd lleferydd ac iaith a seiciatrydd ymgynghorol a oedd yn golygu bod anghenion iechyd cyfannol pobl yn cael eu cefnogi gan y tîm amlddisgyblaethol ehangach.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pasbortau ysbyty ar waith i gleifion a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol***

### **Gofal gydag urddas**

*Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod ac yn ymdrin ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1 – Gofal Gydag Urddas)*

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwnaethom arsylwi ar staff yn trin cleifion â charedigrwydd. Roedd staff yn adnabod y cleifion yn dda ac roeddent yn frwd dros roi cymorth i gleifion gael ansawdd bywyd da.

Gwelsom fod gan gleifion fynediad i'w hystafelloedd preifat eu hunain a oedd wedi eu personoli, yn unigoleddig ac a oedd yn cynnwys eu heiddo eu hunain. Roedd y cleifion y gwnaethom gyfarfod â nhw yn amlwg yn gwerthfawrogi eu hystafelloedd ac yn teimlo perchnogaeth drostynt.

Roedd digon o le yn y tŷ i ddarparu lleoedd preifat lle gallai pobl gwrdd â staff ac ymwelwyr yn gyfrinachol. Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei greu i fodloni anghenion unigol y cleifion ar y cyfan.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, gyda staff yn rhoi cymorth pan oedd angen. Roedd cleifion yn cael cefnogaeth gan staff i gadw cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

### **Gofal amserol**

*Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol, gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y*



Gwelsom fod anghenion cyfredol cleifion yn cael eu diwallu gan y tîm staff. Gwnaethom adolygu nodiadau gofal tri chlaf ac roedd un yn dangos cyfraniad rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth yn nodiadau gofal y ddau glaf arall bod y tîm amlddisgyblaethol wedi cyfrannu'n ddiweddar. Gwnaethom grybwyll hyn gyda'r tîm ar ddiwrnod yr arolygiad a nodwyd bod cofnodion cyfarfodydd diweddaraf y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cadw gan y tîm cymunedol lle mae swyddfa'r tîm amlddisgyblaethol. Anfonwyd e-bost atom yn ystod yr arolygiad gyda chopïau o gofnodion cyfarfod mwyaf diweddar y tîm amlddisgyblaethol; dylai'r rhain fod ar gael yn hygyrch yn y lleoliad preswyl.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

### ***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar gael yn hygyrch yn y lleoliad preswyl.***

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tri set o gofnodion yn cynnwys Cynlluniau Gofal a Thriniaeth cyfredol ynghyd â manylion cydlynedd gofal penodedig dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Roedd uwch staff yn y bwrdd iechyd wedi dechrau trafodaethau gyda'r awdurdod lleol ynghylch darpariaethau pellach y gwasanaeth a'r ffordd orau i gwrdd ag anghenion cleifion.

### **Gofal unigol**

*Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1 – Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth)*

Gwnaethom edrych yn drwyadl ar dair set o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelsom enghreifftiau da o gydlynw gofal rhwng y tîm amlddisgyblaethol, staff yr uned, staff cymunedol, a gweithwyr iechyd ehangach.

Roedd pwyslais ar helpu cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Gwelsom enghreifftiau da o sut roedd y staff wedi gweithio gyda chleifion i helpu i gyflawni hyn gyda nodau hirdymor a rhai ar gyfer y tymor byr.

Roedd gan bob claf ei gynllun gofal ysgrifenedig a'i asesiad risg ei hun ynghyd â nifer o asesiadau penodol eraill i helpu staff i roi cymorth iddynt, fel cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a phroffiliau epilepsi. Roedd y rhain yn

disgrifio'n fanwl yr hyn roedd cleifion yn gallu ei wneud drostynt eu hunain a pha gymorth a chefnogaeth roedd eu hangen arnynt gan y staff. Gwelsom fod y rhain yn cael eu diweddar'u rheolaidd i adlewyrchu anghenion cyfredol y cleifion.

Gwelsom fod staff yn cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth, ac yn helpu pobl i ddeall eu hawliau a'u dewisiadau. Roedd y cleifion yn gwnaethom siarad â nhw'n deall eu gofal a chymorth ac yn rhan o wneud penderfyniadau am eu gofal a chymorth.

Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal a thriniaeth fel sy'n ofynnol dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<sup>3</sup>. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu ac yn gyfredol.

Ar gyfer mwyafrif y cleifion, roedd y staff yn rhoi cymorth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn eu mwynhau, yn y tŷ ac yn y gymuned, gan gynnwys siopa, teithiau i lefydd o ddi-ddordeb a gwyliau. Gwelsom fod mwyafrif y gweithgareddau'n seiliedig yn y tŷ ar gyfer rhai cleifion a dywedodd staff wrthym fod hyn oherwydd anghenion iechyd meddwl amrywiol y claf unigol. Yn yr achosion hyn roedd aelodau o staff yn monitro gweithgareddau'r claf unigol a dywedwyd wrthym eu bod yn gweithio i geisio cynyddu gweithgareddau sy'n seiliedig yn y gymuned yn unol â dymuniadau'r claf.

Roedd gan gleifion fynediad at yr offer priodol i'w helpu gyda'u hanghenion.

*Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2 – Hawliau Pobl)*

Roedd gofal a thriniaeth cleifion yn yr uned yn cael eu darparu mewn ffyrdd a oedd yn sicrhau bod eu hawliau dynol yn cael eu diogelu.

---

<sup>3</sup> Deddf a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a fydd yn helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl mewn pedair gwahanol ffordd.

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/measure/?lang=cy>

Roedd sawl awdurdod o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith ar adeg yr arolygiad. Yn ystod ein trafodaethau â staff, daeth i'r amlwg eu bod yn gweithio'n unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Gwelsom fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â budd gorau'r cleifion. Roedd asesiadau galluedd a phenderfyniadau a wnaed ar ran cleifion yn cael eu cofnodi'n glir.

Fodd bynnag, gwelsom fod yr awdurdodiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer un claf wedi darfod ym mis Rhagfyr 2015 ac ni wnaed atgyfeiriad newydd ar ei gyfer tan fis Chwefror 2016. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd yr holl ddogfennau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ffeil un o'r cleifion eraill ac nad oeddent wedi cael eu hanfon at y lleoliad. Nid oedd staff yn y lleoliad wedi nodi hyn. Nid oedd unrhyw system ar gyfer monitro Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith i rwystro'r problemau hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Dangosodd adolygiad o gofnodion hyfforddiant staff ddiffygion o ran hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a dim ond nifer fach o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant y bwrdd iechyd. Mae hwn yn faes y mae angen ei wella.

Gwelsom fod diffyg cyfraniad gan wasanaeth eiriolaeth annibynnol rheolaidd yn y lleoliad; fodd bynnag, gellir atgyfeirio at y gwasanaeth hwn yn ôl y gofynion. Roedd rhai aelodau teulu'n darparu cymorth gweithredol i'w haelod teulu ac yn lleisio eu barn gydag aelodau o staff.

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system monitro Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith i gynnal hawliau cleifion.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod diffygion o ran hyfforddiant Deddf Galluedd Meddylion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu hunioni.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfraniad a wneir gan wasanaeth eiriolaeth annibynnol i'r lleoliad ac ystyried sut y gellir ei gynyddu.***

*Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y sawl a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai Gwasanaethau Iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir ac ymdrin â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn*

*gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3 – Gwranddo a Dysgu o Adborth)*

Ar lefel yr unigolyn, gwelsom fod hoff a chas bethau'r cleifion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal, eu triniaeth, a'r cynlluniau ar gyfer eu dyfodol.

Nid oedd unrhyw weithdrefn ffurfiol ar gyfer darparu adborth i'r gwasanaeth i gleifion, eu teuluoedd neu unrhyw unigolion eraill oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth. Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos yn y lleoliad ynglŷn â sut i wneud cwyn. Pan fyddai staff yn derbyn pryderon byddent yn cael eu cofnodi ac yn cael sylw'n defnyddio gweithdrefnau'r bwrdd iechyd, Gweithio i Wella yn ôl y gofyn.

Fodd bynnag, wrth siarad â'r staff roedd yn amlwg mai prin oedd yr achlysuron o gofnodi unrhyw adborth cadarnhaol a dderbynnir. Byddai'n fuddiol be bai adborth cadarnhaol yn cael ei gofnodi i ddangos arfer y gellid ei rannu o fewn y lleoliad ac o fewn cyfarwyddiaeth anabledau dysgu'r bwrdd iechyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i rymuso cleifion a theuluoedd i ddisgrifio eu profiadau o'r gwasanaethau yn gyson, â'r nod o wrando ar adborth a dysgu er mwyn gwneud gwelliannau.***

***Dylai gwybodaeth ynglŷn â chwynion fod yn hawdd ei chyrraedd gan gleifion a theuluoedd ar bob adeg.***

## **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol.**

**Yn gyffredinol, gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Roedd meddyginiaethau cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel ac roedd aelodau o staff yn rhoi cymorth i gleifion i fodloni eu hanghenion maetheg.**

**Roedd staff yn addasu'r ffordd roeddent yn cyfathrebu â chleifion er mwyn eu helpu i ddeall. Roedd staff yn defnyddio dulliau fel Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol i roi'r claf wrth galon eu gofal a chymorth.**

**Roedd angen gwelliant hefyd i sicrhau bod yr holl aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol cynnal bywyd cyfredol, gan gynnwys dadebru cardio-pwlmonaidd, diogelwch tân a hyfforddiant iechyd a diogelwch.**

### **Gofal diogel**

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1 – Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)*

Gwelsom fod iechyd, diogelwch a lles cleifion yn cael eu diogelu. Gwelsom fod staff wedi addasu'r amgylchedd i ddiwallu anghenion pobl ac i sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei gynnal.

Gwelsom fod staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ond roedd diffygion o ran hyfforddiant rhai aelodau o staff mewn meysydd eraill fel iechyd a diogelwch, diogelwch tân, trais ac ymddygiad ymosodol. Mae'n bwysig, er diogelwch y cleifion a'r staff, bod hyfforddiant staff yn cael ei gynnal yn y meysydd hyn.

Roedd mannau'n rhydd rhag risgiau baglu gweladwy. Dywedodd y staff wrthym fod risgiau i ddiogelwch cleifion yn cael eu hasesu a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i leihau'r risgiau hyn cyn belled ag yr oedd modd. Gwelsom hefyd fod asesiadau risg manwl wedi cael eu gwneud o fewn y cynlluniau gofal y gwnaethom edrych arnynt.

Fe'n hysbyswyd pe byddai argyfwng claf (llewygu), byddai'r gwasanaethau brys yn cael eu galw. Yn dilyn ein harolygiadau diweddar o leoliadau anabledd dysgu eraill yn y bwrdd iechyd lle nad oedd offer dadebru ar gael, roedd y bwrdd iechyd wedi darparu offer dadebru ar gyfer pob lleoliad preswyl anabledd dysgu i'w ddefnyddio mewn achos o argyfwng cyn i'r gwasanaethau brys

gyrraedd. Roedd hyn yn gadarnhaol, ond ar adeg ein harolygiad nid oedd yr offer wedi cael eu dadbacio ar ôl cael ei ddanfôn at y lleoliad yn ddiweddar. Yn ogystal, roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn dangos bod pump o'r 22 aelod o staff angen diweddarau eu hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol, gan gynnwys hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn barod i'w ddefnyddio.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant sylfaenol cynnal bywyd a hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar unwaith.***

*Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion hydradu a maethol, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl salwch neu anaf. (Safon 2.5 – Maeth a Hydradu)*

Gwelsom fod cleifion yn yr uned yn cael cymorth i fwyta ac yfed a gwneud dewisiadau bwyd iach. Gwelsom gynlluniau gofal manwl iawn a chymhorthion gweledol yn nodi'r cymorth roedd ei angen ar gleifion i baratoi bwyd ac i fwyta ac yfed.

Esboniodd y staff fod cleifion yn cael cymorth gan staff i baratoi prydau bwyd fel rhan o ddatblygiad eu sgiliau bywyd annibynnol. Roedd cegin ar gael yn yr uned, a gallai cleifion ddefnyddio hon gyda chymorth staff ble'r oedd angen.

Gwelsom mewn cofnodion fod asesiadau maetheg yn cael eu cynnal ac roedd siartiau monitro pwysau ar waith, lle'r oedd angen cefnogi cleifion gyda'r agwedd hon ar eu hiechyd.

Lleisiodd aelodau staff bryder nad oedd y gyllideb fwyd ar gyfer y tŷ wedi cael ei hadolygu am nifer o flynyddoedd a'u bod yn teimlo nad oedd y gyllideb fwyd yn ddigonol i'r cleifion yn y lleoliad oherwydd lefel eu gweithgaredd a'u symudedd. Teimlwyd bod y bwrdd iechyd wedi penderfynu ar yr un gyllideb fwyd i bob gwasanaeth preswyl anabledd dysgu heb ystyried y grŵp cleifion a lefel eu gweithgaredd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gyllideb fwyd ar gyfer gwasanaethau preswyl anabledd dysgu er mwyn sicrhau ei bod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion.***

*Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6 – Rheoli Meddyginiaethau)*

Gwelsom fod meddyginiaeth pobl yn cael ei rheoli'n ddiogel yn yr uned. Roedd polisi meddyginiaeth ar waith a gwelsom fod meddyginiaethau cleifion yn cael eu rheoli, eu gweinyddu a'u cofnodi'n ddiogel. Gwnaethom arsylwi ar un rownd meddyginiaethau a gynhaliwyd i safon broffesiynol uchel gan ddau weithiwr cymorth gofal iechyd hyfforddedig. Gwelsom fod meddyginiaethau pobl yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn briodol.

Roedd protocolau priodol ar waith i reoli a gweinyddu meddyginiaeth 'yn ôl yr angen' i gleifion yn ddiogel, ac roedd gan weithwyr cymorth gofal iechyd system ar waith ar gyfer gwirio gyda staff uwch cyn ei gweinyddu.

*Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7 – Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed)*

Gwelsom fod polisi amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed ar waith i staff ei ddilyn pan oedd ganddynt bryderon ynglŷn â cham-drin posibl. Dywedodd staff wrthym, a dangoswyd hyn yn yr holiaduron, eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â lleisio pryderon wrth reolwyr.

Roedd yr holl aelodau o staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a dywedodd un aelod o staff wrthym beth oedd y broses ar gyfer hysbysu am bryder. Gwelsom fod camau gweithredu addas a phriodol wedi cael eu cymryd.

### **Gofal effeithiol**

*Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1 – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol)*

Gwelsom fod gan gleifion yn y lleoliad eu cynlluniau gofal ysgrifenedig eu hunain. Roedd y rhain yn fanwl iawn ac yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio i sicrhau bod cleifion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed y gellid ei osgoi.

Gwelsom fod cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol yn cael eu defnyddio ac unwaith eto roedd y rhain yn fanwl iawn. Mae'r rhain yn helpu staff i nodi

pryd mae angen cymorth ar gleifion i reoli ymddygiad y gallai pobl eraill ei ystyried yn heriol. Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion cleifion, ac fe'u gwelsom yn helpu cleifion i fod yn ddiogel ac i leihau unrhyw deimladau o orbryder.

Gwnaeth staff egluro'r broses ar gyfer rheoli digwyddiadau inni, a gwelsom fod prosesau priodol ar waith er mwyn adrodd am ddigwyddiadau, eu hadolygu a'u cofnodi. Roedd digwyddiadau'n cael eu hysbysu trwy DATIX (system rheoli digwyddiadau'r bwrdd iechyd). Roedd staff rheoli'n adolygu'r digwyddiad er mwyn cymryd y camau priodol, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu gan uwch-reolwyr os oedd angen, er mwyn cymryd camau gweithredu. Roedd digwyddiadau, themâu a phatrymau'n cael eu trafod yn y fforymau ansawdd a diogelwch cleifion ehangach o fewn y bwrdd iechyd.

*Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2 – Cyfathrebu'n Effeithiol)*

Roedd anghenion cyfathrebu cleifion yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau gofal unigol. Roedd gan gleifion anghenion cyfathrebu gwahanol a gwnaethom arsylwi ar staff yn addasu eu dull ac yn nodi'n effeithiol yr hyn roedd cleifion yn ei ddymuno.

Roedd yr wybodaeth oedd yn cael ei harddangos yn y lleoliad yn hygyrch o ran trefn ddyddiol y cleifion, staff ar ddyletswydd a phrydau bwyd. Roedd gan gleifion fynediad at wybodaeth hygyrch ynglŷn â'u gofal a thriniaeth. Roedd diffyg gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch yn cael ei harddangos ynglŷn ag eiriolaeth, cwynion a gwybodaeth gyffredinol am y cartref.

### **Cadw cofnodion**

*Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol. (Safon 3.5 – Cadw Cofnodion)*

Roedd y bwrdd iechyd wedi cynnal archwiliad llawn o ddogfennau ar draws gwasanaethau anabledd dysgu'n ddiweddar ac wedi rhoi system newydd o reoli a threfnu ffeiliau achos ar waith. Roedd safon y gwaith o gadw cofnodion yn y lleoliad yn dda iawn; roedd y ffeiliau'n drefnus, wedi eu trefnu yn ôl adrannau, yn gynhwysfawr ac yn glir.



Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu cadw yn y gegin a oedd yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio a dim ond y staff oedd yn mynd gyda chleifion i'r gegin oedd yn ei defnyddio. Y sail resymegol dros gadw'r ffeiliau yn y gegin yw eu bod yn hawdd i aelodau o staff fynd atynt pan fyddant yn fwyaf tebygol o fod eu hangen. Fodd bynnag, nid oedd y ffeiliau'n cael eu storio'n ddiogel yn y gegin ac roedd yn hawdd i unrhyw un oedd yno eu gweld. Byddai'n fuddiol, er mwyn cyfrinachedd y cleifion, pe bai'r ffeiliau'n cael eu storio'n ddiogel yn y gegin er mwyn rhwystro pobl heb ganiatâd rhag eu gweld.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffeiliau'n cael eu storio'n ddiogel yn y gegin pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.***

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

**Roedd tîm sefydlog o weithwyr cymorth gofal iechyd a oedd yn fedrus iawn ac yn gwybod llawer am y grŵp cleifion yn ôl pob golwg. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n frwd dros eu gwaith gyda chleifion. Fodd bynnag, dywedodd nifer o staff eu bod yn teimlo'n ynysig ac yn bell oddi wrth y rheolwyr a'r penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud ynglŷn â'u swyddi.**

**Gwelsom nad oedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn pynciau gorfodol ac rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sylw i hyn.**

### **Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

*Mae llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd a gynigir, yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.*

Cafwyd sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i fonitro a gwella'r systemau a phrosesau gofal ar waith er budd y defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn oherwydd yn ddiweddar roedd uwch-reolwyr wedi dechrau'r broses o roi gweithgareddau gwella ar waith, megis archwiliadau a chyfarfodydd gwella. Mae'r rhaglen o archwiliadau y bydd rheolwr pob lleoliad yn eu cynnal ledled y gwasanaeth anabledd dysgu o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cael eu darparu ar gyfer AGIC. Gwnaethom argymhell bod y bwrdd iechyd yn ffurfioli a chofnodi'r broses ar gyfer ymweliadau archwilio gan uwch-reolwyr, a bod y rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd bod safonau'n cael eu cynnal mewn meysydd allweddol.

Mae uwch-reolwyr wedi sôn wrth dimau arolygu diweddar AGIC am gynlluniau ar gyfer gwasanaethau preswyl anableddau dysgu'r bwrdd iechyd yn y dyfodol. Mae Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau iechyd perthnasol yn ystod y 18 mis diwethaf i archwilio, cynllunio a chyflenwi modelau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol sy'n gweddu orau i'r anghenion, hoffterau a dymuniadau a nodwyd ar gyfer unigolion sy'n derbyn gwasanaethau preswyl anableddau dysgu. Roedd y gwaith cymhleth hwn yn ymwneud â gwasanaethau preswyl ledled yr ardal ddaearyddol a gwmpasir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; ac roedd cynlluniau i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr yn cymryd rhan er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y dyfodol wrth wneud gwasanaethau'n well byth.

Roedd trefniadau addas ar waith i fonitro ac i wella systemau a phrosesau gofal oedd ar waith er budd cleifion. Dywedodd staff ac uwch-reolwyr wrthym am yr

ymdrechion parhaus i asesu ansawdd y gofal a chymorth a ddarperir, a gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth.

Dyweddodd rhai aelodau o staff oedd yn gweithio yn y lleoliad eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig ac yn bell oddi wrth y rheolwyr a oedd yn gweithio ar draws gwahanol leoliadau preswyl. Roedd hyn yn effeithio ar eu cyfathrebu a'u rhan yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u swyddi. Dywedodd staff wrthym hefyd nad oedd cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd gwella ansawdd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Roedd yn amlwg bod staff sy'n gweithio yn y lleoliad yn cyfathrebu'n effeithiol mewn ffyrdd eraill megis wrth drosglwyddo gofal a chyfnwid gwybodaeth yn anffurfiol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu cyfraniad y rheolwyr i'r lleoliad er mwyn sicrhau bod aelodau o staff yn cael cefnogaeth ac yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â'u swyddi.***

### **Staff ac adnoddau**

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion. (Safon 7.1 – Y Gweithlu)*

Ar adeg ein harolygiad roedd y rhan fwyaf o staff yr uned yn dîm sefydledig o weithwyr cymorth gofal iechyd a oedd yn dangos llawer o sgiliau a gwybodaeth am y grŵp cleifion. Roedd cyfraniad nyrsys cofrestredig i'r uned yn gyfyngedig; roedd tair nyrs gofrestredig yn gweithio 1.6 swydd cyfwerth ag amser llawn. Yn ogystal roedd y rheolwr a'r dirprwy reolwr a oeddent yn nyrsys cymwys yn rhannu eu hamser rhwng y lleoliad preswyl hwn a lleoliad preswyl arall gan y bwrdd iechyd. Er bod cyfraniad y nyrsys cofrestredig yn gyfyngedig roedd yn amlwg o drafodaethau gyda staff ac uwch-reolwyr bod y gymysgedd sgiliau staff angenrheidiol wedi cael ei hasesu ac yn cael ei monitro i sicrhau ei bod yn briodol ar gyfer gofynion y lleoliad.

Drwy gydol yr adroddiad, rydym wedi nodi nad oedd elfennau o hyfforddiant gorfodol pob aelod o staff yn gyfredol. I'r staff hynny nad oedd eu hyfforddiant yn gyfredol, dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rhesymau pam a, lle bo angen, dylai gynorthwyo'r staff i fynychu hyfforddiant.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw hyfforddiant gorfodol rhai aelodau staff yn gyfredol, a lle bo angen dylai gynorthwyo staff i fynychu'r hyfforddiant sydd ei angen.***

## Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth anabledau dysgu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwasanaeth anabledau dysgu yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

### **Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau anabledau dysgu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

## Atodiad A

Gwasanaeth Anabledd Dysgu:

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Cyfeiriad 16032

Dyddiad yr arolygiad:

23 Mehefin 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pasbortau ysbyty ar waith i gleifion a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol.	1.1	Mae pasbortau ysbyty wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer pob un o'r defnyddwyr gwasanaeth. Byddant yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn neu os bydd anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn newid.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	Cwblhawyd 30 Mehefin 2016
7	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar gael yn hygyrch yn y lleoliad preswyl.	5.1	Mae copïau diweddaraf cofnodion cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pob un o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu rhoi yn y cofnodion iechyd. Bydd cydlynwyr gofal yn sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn y dyfodol yn cael eu copïo a'u rhoi yn y cofnodion iechyd.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	Cwblhawyd 30 Mehefin 2016
9	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system monitro Trefniadau	6.2	Mae nodyn atgoffa wedi cael ei ychwanegu at ddyddiadur staff	Chris Jones Pennaeth	Cwblhawyd 30 Mehefin 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith i gynnal hawliau cleifion.		ddau fis cyn dyddiad darfod y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o amser ar gyfer y broses ymgeisio sy'n berthnasol i'r asesiadau gofynnol.	Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	
9	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod diffygion o ran hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu hunioni.	6.2	Mae hyfforddiant ar gael ar-lein ar gyfer Deddf Galluedd Meddyliol a bydd yn rhan o raglen sefydlu'r Nyrsys Cofrestredig. Bydd unrhyw staff cymwys sydd yn y swydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r hyfforddiant ar-lein os nad ydynt eisoes wedi ymgymryd â hyfforddiant cyfwerth. Bydd sesiwn ddiweddarau Deddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei ddarparu i gefnogi gweithwyr trwy'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus. Caiff hyfforddiant Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ei gyflwyno i staff cymwys trwy'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	Erbyn mis Rhagfyr 2016
9	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfraniad gan wasanaeth eiriolaeth annibynnol i'r lleoliad ac ystyried sut y gellir ei	6.2	Bydd eiriolwyr annibynnol yn cael gwahoddiad i fynychu pob cyfarfod defnyddiwr gwasanaeth ac adolygiadau gydag isafswm o dair	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha	7 Medi 2016 ac yn barhaus



Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gynyddu.		wythnos o rybudd. Bydd hyn yn sicrhau bod gan yr eiriolwr ddigon o amser i gwrdd â'r defnyddiwr gwasanaeth ymlaen llaw.	u Arbenigol	
10	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i rymuso cleifion a theuluoedd i ddisgrifio eu profiadau o'r gwasanaethau yn gyson, gyda'r nod o wrando ar adborth a dysgu er mwyn gwneud gwelliannau.	6.3	Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio System Fonitro'r Safonau Iechyd a Gofal i gasglu gwybodaeth ac i adrodd am adborth gan berthnasau a chynrychiolwyr ynglŷn â hanfodion gofal. Cynhelir digwyddiadau ar gyfer teuluoedd a chynrychiolwyr yn ystod adolygiadau gwasanaeth a pherfformiad y gwasanaeth preswyl. Bydd hyn yn caniatáu i gwestiynau gael eu gofyn i'r tîm preswyl a'r tîm rheoli, a hefyd gwneud awgrymiadau, lleisio pryderon a rhoi canmoliaeth.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	7 Medi ac yn barhaus
10	Dylai gwybodaeth ynglŷn â chwynion fod yn hawdd ei chyrraedd gan gleifion a theuluoedd ar bob adeg.	6.3	Mae taflen hawdd ei darllen wedi cael ei datblygu ac ar gael yn y cartref i sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd wybodaeth ynglŷn â sut i gwyno.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	24 Awst 2016
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn barod i'w	2.1	Cysylltwyd â'r gwasanaeth dadebru a chafwyd cyngor ar yr offer sy'n briodol i'w ddefnyddio	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol	Cwblhawyd 30 Mehefin 2016

<b>Rhif y Dudalen</b>	<b>Yr hyn y mae angen ei wella</b>	<b>Safon</b>	<b>Camau Gweithredu gan y gwasanaeth</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
	ddefnyddio os oes angen.		mewn lleoliad preswyl. Mae masgiau Laerdal a pheiriannau sugno symudol wedi cael eu harchebu ac ar waith yn awr.	Gwasanaetha u Arbenigol	
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant sylfaenol cynnal bywyd a hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyn gynted â phosibl.	2.1	Mae hyfforddiant sylfaenol cynnal bywyd a hyfforddiant ar ddefnyddio'r offer dadebru'n cael ei ddarparu trwy'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	Erbyn 31 Hydref 2016
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gyllideb fwyd ar gyfer gwasanaethau preswyl anabledd dysgu er mwyn sicrhau ei bod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion.	2.5	Mae'r tîm rheoli busnes yn adolygu'r gyllideb fwyd a bydd yn ei addasu i lefel briodol ar ôl cwblhau'r adolygiad.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	Erbyn 30 Tachwedd 2016
15	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffeiliau'n cael eu storio'n ddiogel yn y gegin pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.	3.5	Bydd ffeiliau'n cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo yn y gegin nes bydd angen eu defnyddio.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	1 Medi 2016
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					
17	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu cyfraniad y rheolwyr i'r lleoliad er mwyn sicrhau bod aelodau o staff yn cael cefnogaeth ac yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â'u swyddi.	Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Mae'r rheolwr preswyl neu ei ddirprwy ar gael yn y cartref o ddydd Llun i ddydd Gwener.  Mae Goruchwyliaeth Rheoli'n cael ei chyflwyno i'r holl staff a bydd yn digwydd bob wyth wythnos o leiaf.	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	Cyfredol ac yn barhaus  Cyflwyno goruchwyliaeth erbyn 30

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Bydd hyn yn rhoi cyfle i staff drafod agweddau ar eu gwaith gyda'r adolygydd a hefyd i uwchgyfeirio pryderon.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth benodol am adolygiad o wasanaethau preswyl yn y cyfarfod staff ar 7 Gorffennaf 2016 gan Reolwr y Gyfarwyddiaeth. Mae staff wedi cael eu hannog i drafod unrhyw bryderon yn uniongyrchol â Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, y Rheolwr Preswyl neu Bennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Arbenigol yn ôl yr angen ar sail unigol.</p>		<p>Tachwedd 2016.</p> <p>7 Gorffennaf 2016 ac i'w ddiweddar'u rheolaidd pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.</p>
17	Dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw hyfforddiant gorfodol rhai aelodau staff yn gyfredol, a lle bo angen dylai gynorthwyo staff i fynychu'r hyfforddiant sydd ei angen.	7.1	<p>Bydd hyfforddiant staff yn cael ei fonitro trwy oruchwyliaeth gan reolwyr ac adolygiadau perfformiad a datblygiad.</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol ei fonitro gan y tîm rheoli busnes ar lefel uchel er mwyn gallu canfod a rheoli pryderon trwy'r strwythur rheoli.</p> <p>Mae gwybodaeth am broblemau a hysbyswyd gan staff o ran mynychu hyfforddiant wedi cael ei</p>	Chris Jones Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaetha u Arbenigol	<p>Erbyn 30 Tachwedd 2016</p> <p>Yn fisol, cyfredol ac yn barhaus</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>chasglu a rhoddir y canlynol ar waith er mwyn eu galluogi i fynychu;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hwyluso staff i fynychu hyfforddiant sylfaenol ar sut i ddefnyddio cyfrifiaduron.</li> <li>• Staff i fynychu hyfforddiant ystafell ddosbarth i sicrhau bod cyrsiau gorfodol yn cael eu cynnal.</li> <li>• Staff i hyfforddi eraill mewn rhai cyrsiau fel codi a chario er mwyn gwella cydymffurfiaeth.</li> <li>• Creu amserlen lle gall staff gael mynediad at gyfrifiadur.</li> </ul>		<p>Erbyn mis Mawrth 2017</p> <p>Cyfredol ac yn barhaus</p> <p>Erbyn mis Mawrth 2017</p> <p>Tachwedd 2016</p>

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):** Chris Jones

**Teitl:** Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Arbenigol

**Dyddiad:** 7 Medi 2016